e-newyddlen fforwm gofal cymru rhifyn 7 2014

# eFforwm



Adolygiad Gofal Preswyl
Canmoliaeth gan y Prif Weinidog
Deddf Newydd
Gwrthwynebu ymweliadau 15-munud
Sêr gofal yn disgleirio
Rhestr Anrhydeddau
Oes o gyflawni
Doniau cudd
Chwilio am arwyr tawel
Cipio'r wobr aur
Rhoddion hosbis hael
Cyfrifoldeb newydd
Manteision i aelodau
Y bobl sy'n cyfrif

"Mae'n glod i sefydliadau fel Fforwm Gofal Cymru eu bod yn gallu creu perthnasoedd ar gynifer o lefelau er mwyn sicrhau'r dyfodol gorau posibl i bobl hŷn yng Nghymru"

**Carwyn Jones**
Prif Weinidog




# Adolygu gofal preswyl

"Yr hyn sydd ei angen ar y sector yw cefnogaeth yn hytrach na beirniadaeth ar gartrefi gofal"

O'r diwedd mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi dechrau adolygu gofal preswyl.

Mae cartrefi gofal trwy Gymru wedi cael neges yn dweud y dylent baratoi eu hunain ar gyfer ymweliad gan dîm y Comisiynydd, y Rapporteurs.

Byddant yn ffonio'n ddirybudd am 9am ar ddiwrnod yr ymweliad ac yn cyrraedd ymhen awr neu ddwy.

Meddai Mary Wimbury Uwch Gynghorydd Polisi y Fforwm Gofal: "Mae cartrefi gofal yn siŵr o fod yn pendroni sut mae'r bobl hyn yn cyd-fynd â'r arolygwyr statudol o Arolygiaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) sy'n cynnal arolygiad dirybudd a'r aseswyr o awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd sy'n comisiynu'r rhan fwyaf o leoliadau mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

"Heblaw am y pwysau y mae'r ymweliadau hyn yn ei roi ar reolwyr cartrefi gofal a'u staff a'r amser sy'n cael ei dreulio ar draul darparu a gwella gofal, rhaid i ni gwestiynu, ar adeg o galedi fel hyn, ai tair system archwilio ar wahân ond gyfatebol yw'r defnydd gorau o arian cyhoeddus.

"Ni fyddai unrhyw un yn anghytuno bod angen cynnal arolygiad o gartrefi gofal er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y safonau, ond gallai'r cyfuniad hwn o arolygu, asesu ac adolygu daflu mwy o dywyllwch nag o oleuni ac amharu ar y drafodaeth sylfaenol ynglŷn â'r hyn yr ydym yn anelu ato o ran gofalu am bobl hŷn yng Nghymru.

"Mae'r cylch gorchwyl yn rhy gyfyngedig ac nid ydynt yn ystyried y ffordd y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ariannu a'i gomisiynu, sy'n cael effaith fawr iawn ar y gofal a ddarperir.

"Felly mae Fforwm Gofal Cymru'n credu bod adolygiad y Comisiynydd Pobl Hŷn yn colli cyfle.

"Rydym hefyd yn siomedig nad yw Panel Cynghori'r Comisiynydd yn cynnwys unrhyw un sydd yn ddiweddar wedi byw mewn cartref gofal neu wedi rheoli neu fod yn berchen ar gartref gofal ac a fyddai'n gallu cynnig gwybodaeth arbenigol i gyfrannu at y broses.

"Mae'r darlun mawr yn dangos bod y system ofal gyfan mewn trafferthion yn gyffredinol, yn sicr dyma'r amser mwyaf heriol y mae pobl wedi ei brofi yn y sector.

"Bydd yr adolygiad yn dangos peth arfer gwych yng Nghymru ac mae'n anochel y bydd rhai meysydd angen eu gwella. Gobeithio y bydd yr adroddiad nid yn unig yn canolbwyntio ar bwyntiau negyddol ond yn rhannu arfer da ac yn ein hannog i ddysgu yn ei sgil."

# Canmoliaeth gan y Prif Weinidog



*"Lansiwyd Fforwm Gofal Cymru ar ddydd Gŵyl Dewi yn 1993 ac ers y dyddiau cynnar hynny, mae wedi arwain y ffordd gan roi defnyddwyr gwasanaeth wrth galon ei waith"*

**Carwyn Jones**
Prif Weinidog

Mae Carwyn Jones y Prif Weinidog wedi canmol Fforwm Gofal Cymru am roi pobl fregus wrth galon ei waith.

Yn ôl Mr Jones, mae Fforwm Gofal Cymru'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy tuag at wella safonau mewn gofal cymdeithasol.

Roedd Mr Jones yn siarad mewn cyfarfod o'r Grŵp Pum Gwlad sy'n cynrychioli darparwyr gofal annibynnol o'r pedair gwlad ac Iwerddon.

Cynhaliwyd y gynhadledd yng Nghaerdydd gan Fforwm Gofal Cymru a oedd yn un o aelodau gwreiddiol y grŵp.

Dyma'r tro cyntaf i bennaeth llywodraeth fynychu cyfarfod y Pum Gwlad.

Meddai Mr Jones: "Lansiwyd Fforwm Gofal Cymru ar ddydd Gŵyl Dewi yn 1993 ac ers y dyddiau cynnar hynny, mae wedi arwain y ffordd gan roi defnyddwyr gwasanaeth wrth galon ei waith.

"Yng Nghymru rydym yn ymfalchïo mewn bod yn Genedl Flaengar. Yng Nghymru y sefydlwyd y GIG, ni a apwyntiodd y Comisiynwyr Plant a Phobl Hŷn cyntaf; a ni a gyhoeddodd y Strategaeth gyntaf ar gyfer Pobl Hŷn yn y Deyrnas Unedig.

"Trwy adeiladu perthynas waith dda gyda Llywodraeth Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Fforwm Gofal Cymru wedi rhoi cefnogaeth sylweddol i'r agenda hwnnw ac i'n hymrwymiad i wella'n gyson y gofal a ddarperir yng Nghymru.

"Mae'n glod i sefydliadau fel Fforwm Gofal Cymru eu bod yn gallu creu perthnasoedd ar gynifer o lefelau er mwyn sicrhau'r dyfodol gorau posibl i bobl hŷn yng Nghymru.

"Er enghraifft, y gwaith mae Fforwm Gofal Cymru wedi ei wneud gyda Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf i baratoi pecyn cymorth urddas mewn gofal ar gyfer staff rheng flaen.

"Mae Fforwm Gofal Cymru hefyd wrth gwrs wedi sefydlu Academi Ymarferwyr Gofal, sy'n gymdeithas broffesiynol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithas â chymwysterau galwedigaethol.

"Y gobaith yw y bydd y cynllun hwn sy'n cael ei arwain gan Gymru, a'i gefnogi gan grŵp y Pum Gwlad, yn cael ei gyflwyno mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig."

Roedd Mario Kreft MBE, Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru, yn falch dros ben ac yn ei theimlo'n fraint bod y Prif Weinidog wedi neilltuo amser yn ei amserlen brysur i fynychu cynhadledd y Pum Gwlad.

Meddai Mario: "Rwy'n credu ei fod yn gwerthfawrogi bod Fforwm Gofal Cymru'n ysgwyddo ei gyfrifoldeb o fewn y Pum Gwlad, fel llais arweiniol ar gyfer newid ac fel cyfrwng i sicrhau'r gorau mewn gofal cymdeithasol.



*O'r chwith, Tadhg Daly – Prif Weithredwr yn Nursing Homes Ireland, Bridget Warr – Prif Weithredwr UKHCA, Robin Sidebottom – Is-gadeirydd, Scottish Care, Christine Thompson - Cadeirydd IHCP (Darparwyr Iechyd a Gofal Annibynnol), Carwyn Jones y Prif Weinidog, Mario Kreft MBE Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru, Nigel Newman –Uwch Reolwr Datblygu Busnes yn Boots UK, Des Kelly – Cyfarwyddwr Gweithredol y Fforwm Gofal Cenedlaethol a Martin Green – Prif Weithredwr ECCA.*

# Bydd deddf newydd yn trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru

Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn trawsnewid y ffordd y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu yng Nghymru.

Yn un peth, bydd y Bil – y ddeddfwriaeth fwyaf a mwyaf cymhleth i gael ei hystyried erioed gan y Cynulliad Cenedlaethol – yn creu meini prawf cymhwyso cenedlaethol waeth ble mae pobl yn byw.

Mae'n gam mawr ymlaen i'r cyfeiriad iawn ond yn ôl Fforwm Gofal Cymru, mae newidiadau arall yn ymddangos sydd heb fod mor gadarnhaol.

Meddai Mary Wimbury, Uwch Gynghorydd Polisi: "Rydym yn optimistaidd iawn y bydd Llywodraeth Cymru'n gwrando ar y pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar eu Papur Gwyn ynghylch Arolygiaeth a Rheoleiddio.

"Credwn yn gryf y byddai cyflwyno ffioedd cofrestru'n wrthgynhyrchiol. Bydd yn rhaid i'r gost ychwanegol ddod o bwrs y wlad, sy'n ariannu'r rhan helaeth o ofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddai hyn yn gosod straen ar system sydd eisoes o dan bwysau diangen.

"Byddai cyflwyno ffioedd cofrestru'n gyfle arall i greu diwydiant newydd a biwrocratiaeth.

"Yn Lloegr maen nhw'n codi £100 y gwely a byddai hynny'n faich ofnadwy pan fo pethau'n ddigon anodd fel y mae.

"Roedd ffioedd yn arfer bodoli yng Nghymru, ond cawsant eu dileu, a hynny'n gwbl briodol.

"Mae Fforwm Gofal Cymru'n credu'n gryf bod angen i ni bellach symud i sefyllfa lle mae'r rheoleiddiwr yn rheoleiddio yn erbyn safonau mesuradwy.

"Nid yw'r defnydd goddrychol o iaith yn yr adroddiad o unrhyw gymorth. Ni chredwn fod trafod a yw papur wal wedi ei osod yn broffesiynol, fel a welwyd yn ddiweddar mewn adroddiad, o werth mawr i ansawdd bywyd pobl.

"Ar achlysur arall gwnaed sylw beirniadol bod blew cath ar un o'r preswylwyr a chath ar y grisiau.

"Dyma'r mathau o bethau y byddech yn eu canfod yn eich cartref eich hun a chredaf mai'r math o ansawdd y dylem fod yn ei ystyried gan y rheoleiddwyr yw ansawdd mesuradwy nid goddrychol.

"Credaf mai'r peth amlwg i reoleiddwyr yw sicrhau bod darparwyr gofal yn cydymffurfio â'r gofynion. Os nad ydynt yn gwneud hynny, dylent gymryd camau. Mae hynny'n gwbl briodol.

"O ran agweddau'n ymwneud ag ansawdd bywyd a bodlonrwydd cwsmeriaid / preswylwyr, y bobl eu hunain a'r Comisiynwyr ddylai benderfynu ar hynny .

"Mae'n ymddangos yn rhyfedd i mi nad yw'r drefn yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael oherwydd tangyllido cronig.

"Mae 2760 o oriau mewn blwyddyn ac fel arfer daw'r arolygwyr i mewn am ychydig o oriau, 3 i 4 awr efallai, neu am ddiwrnod, gan edrych ar yr hyn sydd i'w weld a chaniatáu newidiadau ffeithiol yn unig.

"O ganlyniad maen nhw'n gweithredu fel barnwr, cyn rhoi ar y rhyngrwyd rywbeth y mae pobl yn credu fwyfwy sy'n anghynrychioliadol.

"Efallai mai dyma'r gwir ond nid yr holl wir. Nid oes unrhyw un yn awgrymu eu bod yn sôn am bethau nad ydynt yn eu gweld ond mae pob un ohonom yn gwylio dyfarnwyr mewn chwaraeon ac yn gwybod bod dwy ochr i bethau."

"Credwn yn gryf fod cyflwyno ffioedd cofrestru'n anghynhyrchiol"

"Credaf mai dyma'r adeg iawn i drefnu trafodaeth briodol am ddyfodol rheoleiddio"

# Y Pum Gwlad yn dod at ei gilydd i wrthwynebu ymweliadau 15-munud

Mae ymgyrch fawr yn cael ei threfnu i wrthwynebu ymweliadau gofal cartref 15-munud i bobl oedrannus a bregus a phobl anabl.

Mae'r ymgyrch yn cael ei threfnu gan grŵp y Pum Gwlad, sy'n cynrychioli sefydliadau gofal ar draws y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Credir bod yr ymweliadau'n amddifadu pobl o'u hurddas ac yn rhoi nifer ohonynt mewn risg.

Croesawyd adolygiad gan y Llywodraeth i'r arfer a ddisgrifiwyd ganddynt fel trefn annioddefol a phwysleisiwyd bod angen gweithredu ar fyrder.

Y mater hwn oedd ar frig yr agenda yng nghynhadledd y Pum Gwlad yng Nghaerdydd, a gynhaliwyd gan Fforwm Gofal Cymru sy'n dathlu 20 mlynedd ers ei sefydlu eleni.

Meddai Mario Kreft MBE, Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru ac aelod gwreiddiol o'r grŵp Pum Gwlad, said: "Mae'n ffenomen sy'n tyfu ac mae'n rhoi pwysau annioddefol ar y system.

"Mae'n annerbyniol i rywun gael mynediad at gymorth am gyfnod mor fyr, ac mae'n ei gwneud yn amhosibl i'r darparwr roi'r gwasanaeth priodol. Mae pawb ar ei golled.

"Mae hon am fod yn ymgyrch o bwys i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg."

Roedd grŵp y Pum Gwlad hefyd yn pryderu bod pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn aml yn colli mynediad at ofal sylfaenol am ddim, fel ffisiotherapi a deintyddiaeth.

Ychwanegodd Mario: "Mae'n ymddangos bod y graddau y mae gofal sylfaenol ar gael yn broblem trwy'r Deyrnas Unedig.

"Mae'n ymddangos bod pobl yn colli'r hawl i gael y gofal sylfaenol yr oedden nhw'n ei gael pan oedden nhw'n byw gartref - a bod awdurdodau'n credu y dylai cartrefi gofal ysgwyddo'r tâl amdano.

"Mae atal mynediad at wasanaeth hanfodol yn gyfystyr ag atal hawliau dynol sylfaenol."

"Ni chredwn fod hynny'n iawn felly rydym am wneud darn o waith i asesu hynny a chredwn ei fod yn fater difrifol iawn i bob un o'r pum gwlad."

"Mae'n fater y bydd pob un o'n haelodau'n ei ddwyn i sylw'r bobl briodol yn y llywodraeth, ac yn amlwg yn ein hachos ni, y Comisiynydd Pobl Hŷn."

*"Rydym yn bryderus iawn ynglŷn â chomisiynu priodol ar gyfer gwasanaethau gofal cartref"*

**Mario Kreft**

Cadeirydd, Fforwm Gofal Cymru

# Sêr gofal cymdeithasol yn disgleirio mewn noson wobrwyo

Disgleiriodd gweithwyr gofal cymdeithasol yn y noson wobrwyo hon.

Cafodd yr arwyr tawel yn y sector eu cydnabod am eu sgiliau a'u hymroddiad yn seremoni flynyddol Gwobrau Gofal Cymru, a gynhaliwyd am yr 11eg blwyddyn.

Cyflwynydd y seremoni arbennig hon yn Neuadd y Dref yng Nghaerdydd oedd Lucy Owen, sy'n gyflwynydd ar y BBC ac roedd yr adloniant yng ngofal y mezzo soprano ddawnus, Sioned Terry.

Ymysg y rhai a anrhydeddwyd oedd tair merch ddewr a frwydrodd trwy fwg trwchus i achub gŵr oedrannus pan ddechreuodd tân yn ddirybudd mewn cartref nyrsio.

Un noson ychydig yn ôl helpodd Tessie Thomas, nyrs gofrestredig a Pat Scanlon a Shelley Jones sy'n gynorthwywyr gofal, i achub pensiynwr, a oedd yn ei 80au, a symud y preswylwyr eraill allan o gartref College Fields yn y Barri, ger Caerdydd.

Cafodd eu dewrder ei gydnabod pan rannodd y tair ohonynt wobr aur "Gwobr Iechyd a Diogelwch Gofal Cymdeithasol" a noddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd penaethiaid tân wedi canmol ymateb "rhagorol" y staff i'r tân, gan ddweud eu bod wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir.

Yn y cyfamser, cafodd dau aelod o staff arall eu gwobrwyo am eu dewrder ar ôl mentro trwy ddŵr dwfn iasoer hyd at eu canol i ddiogelu preswylwyr pan darwyd cartref gofal gan lifogydd yn Llanelwy, Gogledd Cymru.

Roedd yr Hen Ddeondy'n un o 400 o adeiladau a effeithiwyd pan ddaeth Afon Elwy yn Llanelwy dros ei glannau ar ôl cyfnod o law trwm yn gynnar y bore ar 27 Tachwedd y llynedd.

Ond diolch i ymdrechion rheolwr y cartref, Lisa Bowen a'r uwch gynorthwyydd gofal Jane Heath-Coleman, llwyddwyd i sicrhau bod pob un o'r 21 preswylydd, sy'n amrywio o saith deg oed i 98, yn sych a diogel.

Meddai Lisa: "Rwyf wrth fy modd a wnes i erioed ddisgwyl cael fy enwebu ar gyfer y wobr." Ychwanegodd Jane yn wylaidd: "Roedd yr hyn a wnaethom ni'r noson honno yn ymdrech ar y cyd gan yr holl staff a hoffwn feddwl ein bod wedi derbyn y wobr ar ran y tîm cyfan."

Aeth y wobr bwysig Gwobr Ysbryd Gofal, a noddir gan Barchester Healthcare, i gyn brentis drydanwr am ei ddawn a'i ymroddiad yng nghartref gofal Golwg yr Iwerydd yng Nghaerdydd. Hefyd enillodd Phil Disson, sy'n 25 oed, wobr arian yn y categori Gweithiwr Newydd Arbennig a noddir gan Goleg Cambria.

Cafodd ei enwebu am y ffordd y mae'n cael ei werthfawrogi a'i barchu gan breswylwyr, eu perthnasau a'i gyd-weithwyr yn Atlantic View, lle mae ef yn bersonol yn gofalu am 19 o bobl oedrannus ar un o dri llawr y cartref.

Meddai cydweithiwr: "Mae'n hawdd gweld pan fod preswylwyr, eu teuluoedd a'i gydweithwyr yn ei hoffi a'i werthfawrogi gymaint, oherwydd mae wynebau'r preswylwyr yn goleuo pan maen nhw yn ei gwmni."

Un o brif uchafbwyntiau'r noson oedd y Wobr Urddas mewn Gofal, a noddwyd unwaith eto gan Lywodraeth Cymru.

Eleni roedd pedwar o Sir Benfro, ynghyd â Sophanit Francis, o Sir Gaerfyrddin, a Janet Atherton, o Wynedd.

Mae Ben Perkins, sy'n 32 oed, yn gyd-gysylltydd gofal yn Care in Hand, un o'r darparwyr nyrsio a gofal cartref mwyaf yn Sir Benfro, sydd wedi ei leoli yn Pentlepoir,

parhad yma







**O'r brig:**

*Lisa Bowen a Jane Heath-Coleman.*

*Tessie Thomas, Pat Scanlon a Shelley Jones*

*Phil Disson*

## Y dyddiad cau ar gyfer Gwobrau Gofal Cymru 2014 yw 31 Mawrth

Am fwy o wybodaeth ewch i www.careforumwales.co.uk

Saundersfoot.

Thema a amlygwyd dro ar ôl tro gan y rhai sydd wedi ei weld yn gofalu yw'r ffordd y mae'n mynd "y tu hwnt i'w ddyletswyddau."

Yn ogystal â'r wobr Urddas, enillodd Ben, o Landdewi Felffre, Arberth, wobr aur yn y Wobr Gofal Diwedd Oes a noddir gan Barclays Corporate yng Ngwobrau Gofal Cymru.

Ar ôl ei lwyddiant dwbl meddai Ben: "Rwyf ar ben fy nigon. Roedd yn noson mor gofiadwy."

Aeth Neil Roberts, o Hwlffordd i'r seremoni wobrwyo i "ddangos ei gefnogaeth" a dychwelodd adref wedi ei syfrdanu gan iddo ennill dwy wobr aur.

Roedd y gwobrau'n gwbl haeddiannol gan i'r cyn weithiwr ffatri 50 oed newid gyrfa'n gyfan gwbl. Yn ogystal â'r wobr Urddas, derbyniodd wobr aur yn y categori Byw â Chymorth neu'r categori Ymarferydd Gofal Grŵp Bach Byw yn y Gymuned, gan Ganolfan Dysgu Gofal Pendine Park.

Bu Neil, sy'n dad i ddau o blant ac yn weithiwr cymorth yn Elliots Hill Care Ltd, yn gweithio am 27 mlynedd fel peiriannydd i Fenton Factors Ltd yn y dref ond pan gaeodd y busnes ymunodd â'i frawd yn y ffatri gaws leol.

Gan fod ei fam a'i ddwy chwaer wedi bod yn nyrsys efallai mai cam naturiol oedd troi i'r sector gofal, ac nid yw wedi difaru o gwbl am y newid hwnnw a wnaeth bum mlynedd yn ôl.

Roedd Neil wrth ei fodd ac meddai: "Mae gweithwyr gofal ar y cyfan yn cael sylw anffafriol yn y wasg oherwydd lleiafrif bychan o 'weithwyr gwael' felly mae'n braf bod yr holl waith da sy'n cael ei wneud yn cael ei gydnabod," ychwanegodd.

Daeth Sophanit Francis yr holl ffordd o Wlad Thai i weithio yng Nghymru 26ain mlynedd yn ôl.

Mae ganddi enw da ymysg ei chydweithwyr yng Nghartref Gofal Towy Castle am ei hymroddiad i'w gwaith a'r urddas a'r parch y mae'n ei ddangos wrth weithio â phreswylwyr.

Yn ogystal â'r wobr Urddas, derbyniodd wobr arian yn y categori Gwasanaeth Arbennig, a noddir gan Hallmark Care Homes.

Ar hyn o bryd mae gan Sophanit ddwy rôl fel rheolwr sifftiau gwaith a rheolwr anghenion arbennig.

Meddai: "Yn y seremoni cefais fy synnu'n fawr pan dderbyniais ddwy wobr. Ond mae wedi gwneud i mi deimlo'n falch dros ben.

"Cefais noson fendigedig yn Neuadd y Ddinas Caerdydd, yng nghwmni fy merch, Mary."

Mae Janet Atherton wedi treulio 30 mlynedd o'i bywyd yn gofalu am ŵr sydd wedi cael niwed i'r ymennydd ar ôl damwain fawr.

Yn ôl yn 1980 gwahoddodd Janet Atherton Steve Linford i ddod i fyw gyda hi a'i theulu ac ers hynny mae wedi dod yn aelod integredig llawn o'i theulu, gan rannu llawer o'u bywyd yn cynnwys nifer o wyliau i wledydd tramor egsotig.

Yr agwedd anhunanol hon tuag at ddarparu gofal o'r radd uchaf i unigolyn bregus a sicrhaodd le yn rownd derfynol Gwobrau Gofal Cymru i Janet, sy'n 75 oed ac yn byw yn Abersoch yng Ngwynedd.

Yn ogystal â'r wobr Urddas, derbyniodd Janet wobr efydd yn y categori Hyrwyddo Bywydau Bodlon, a noddir gan Boots Care Services.

Meddai: "Roedd y wobr efydd yn ddigonol ond roedd ennill y wobr Urddas mewn gofal hefyd yn sioc!"

Talwyd teyrnged gan Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, i'r ymarfer rhagorol a amlygwyd gan y rhai a ddaeth i'r rownd derfynol.

Meddai: "Mae'n wych cael y cyfle hwn i rannu eich llwyddiant a'ch helpu i ddathlu popeth sy'n dda ynglŷn â darparu gofal yng Nghymru.

"Rwy'n gwerthfawrogi fod y rhain yn gallu bod yn rolau heriol sy'n gofyn llawer ar weithwyr ac nad ydych bob amser yn cael y gydnabyddiaeth yr ydych yn ei haeddu.

"Dyna pam fod nosweithiau fel y rhain, lle gallwn ddod at ein gilydd i ddangos pa mor dda yw gofal cymdeithasol yng Nghymru; lle gallwn ddiolch yn gyhoeddus i bawb ohonoch sy'n darparu gofal; a chodi proffil y gwaith rhagorol yr ydych yn ei wneud yn ystod y tri chant a chwe deg chwe diwrnod arall yn y flwyddyn, mor bwysig."

Dywedodd Mario Kreft MBE, Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru fod safonau'r rhai a enwebwyd ar gyfer Gwobrau Gofal Cymru eleni yn hynod o uchel.

Ychwanegodd: "Y seremoni wobrwyo hon yw ein cyfle i dalu teyrnged a dathlu'r ddawn a'r ymrwymiad sy'n gwella ansawdd bywyd i filoedd ar filoedd o bobl trwy Gymru.

"Rydym yn eu hedmygu'n fawr."







**O'r Brig:**

*Sioned Terry.*

*O'r chwith, Lesley Griffiths AC Gweinidog Llywodraeth Leol gydag Olivia Thomas a David Jones, Pennaeth Coleg Cambria.*

*Lucy Owen, cyflwynydd ar y BBC*

## Y dyddiad cau ar gyfer Gwobrau Gofal Cymru 2014 yw 31 Mawrth

Am fwy o wybodaeth ewch i www.careforumwales.co.uk

# Oriel Anrhydeddau



# Anrhydedd i Arbenigwr Gofal am Oes o Gyflawni

Enillwyd Gwobr Cyflawniad Oes Craig Thomas gan ddau o fawrion byd gofal cymdeithasol.

Y ddau oedd Mike Parsons, sylfaenydd a chyn brif weithredwr Barchester Healthcare, a Gordon Cole, sydd newydd ymddeol fel ymgynghorydd polisi Fforwm Gofal Cymru. Derbyniodd y ddau'r anrhydedd ar achlysur noson Gwobrau Gofal Cymru.

Meddai  Mike, un o fawrion sector iechyd Prydain: "Rwyf wedi bod yn gefnogol erioed i Wobrau Gofal Cymru, felly roedd derbyn y wobr yma'n golygu llawer i mi."

Er iddo roi'r gorau i'w swydd fel prif weithredwr y llynedd mae Mike Parsons yn parhau fel cyfarwyddwr anweithredol Barchester Healthcare. Cychwynnodd y cwmni bron i 20 mlynedd yn ôl gan ei ddatblygu'n gwmni gwasanaethau o'r radd flaenaf i dros 10,000 o breswylwyr, ac yn cyflogi dros 17,000 o staff mewn dros 200 safle, 16 safle yng Nghymru.



Gordon Cole  gyda Beryl ei wraig

O ran ei gefndir addysgol astudiodd economeg ym mhrifysgolion Sussex a Rhydychen a daeth yn ymgynghorydd rheoli.

Wedyn cafodd gymhwyster MBA yn YsgolFusnes Llundan a Diploma mewn Rheolaeth Ryngwladol yn Hautes Etudes Commerciales, Paris a'r Graduate School of Business Administration yn Wall Street, Efrog Newydd.

Roedd yn un o'r cyfarwyddwyr a sefydlodd asiantaeth hysbysebu lewyrchus yn Llundain a werthwyd ganddo ef a'i bartneriaid i Saatchi and Saatchi yn 1985. Gweithiodd yn Saatchi and Saachi am bum mlynedd fel Prif Swyddog Gweithredol eu rhwydwaith ryngwladol.

Ond newidiodd ei fywyd wrth geisio cael hyd i le i fyw i Fodryb Ivy a Modryb Lily ryw ugain mlynedd yn ôl.

"Rwy'n meddwl mai dyna pam mae Mario a minnau'n cyd-dynnu mor dda. Mi gafodd yntau brofiad tebyg oedd yn sbardun iddo fo am flynyddoedd ar ôl trio cael lle i fyw i'w nain!" meddai Mike.

Yn y cyfamser mae Gordon o bosib wedi gwneud mwy na neb i wella safonau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar ôl gweithio am 50 mlynedd i'r Gwasanaeth Iechyd, sectorau preifat a gwirfoddol a llywodraeth leol, mae Gordon, sy'n 69 oed, wedi ymddeol, er iddo fod yn gyndyn ianw o wneud hynny. Mae'n dal i helpu yn y sector wirfoddol.

"Mi oedd hi'n dipyn  o syndod i mi i mi gael gwobr. Mi gymerais ran  yn sefydlu'r gwobrau 11 mlynedd yn ôl ac rwy'n falch iawn eu bod wedi llwyddo.

"Yn wreiddiol fe'u  sefydlwyd i gydnabod pobl sy'n gwneud gwaith nad oes neb arall eisiau ei wneud, a'u bod yn gwneud y gwaith yn dda iawn. Ac roedd hefyd yn fwriad gennym i ddadwneud peth o'r cyhoeddusrwydd drwg mae'r sector yn ei gael," meddai.

Cysylltodd Fforwm Gofal Cymru  â Gordon, sy'n byw ym mhentref Frenchay yn Ne Sir Gaerloyw, yn 1995. Roedd gan y Fforwm ddiddordeb yn y gwaith yr oedd yn ei wneud yn ei ardal ei hun ym Mryste ac Avon ar wella safonau gofal mewn cartrefi gofal. Ar y pryd roedd y Fforwm eisiau datblygu sicrwydd ansawdd gan geisio gwneud hynny mewn ffordd syml, hawdd a pherthnasol i breswylwyr eu perthnasau a'r rhai oedd yn gweithio mewn cartrefi.

Meddai Mario Kreft: "Yn syml iawn mae Mike yn un o'r cewri yn ein sector – ond yn fwy na hynny mae'n ddyn gwirioneddol ddymunol a da.

"Dros 20 mlynedd yn ôl yr oedd gan Mike weledigaeth ac arweiniodd wrth ddatblygu'r sector gofal. Datblygodd ddull gweithredu a pharch rhyngwladol iddo gan ddefnyddio ei gefndir disglair a'i brofiad yn Saachi a Saachi i gyflawni hynny."

"Rydym wedi gweithio'n galed yng Nghymru i uno 'r elfennau  sydd o fewn y sector ofal. A phob amser yr ydym wedi cael cefnogaeth Mike i wneud hynny. Mae'n gweld pwysigrwydd cael un llais cryf  gan roi blaenoriaeth i bobl ac ansawdd y gwasanaeth.

"Ychydig iawn o bobl, fawr neb o bosib, sydd mor wybodus a phrofiadol a Gordon ym myd iechyd a gofal neu sydd wedi bod mor ddylanwadol yn gwella safonau gofal, yn neilltuol felly yma yng Nghymru.

"Mae hyd yn oed llai o bobl wedi ymroi i helpu eraill ar hyd eu bywydau ac wedi gwneud hynny mewn ysbryd hwyliog heb unrhyw arlliw o fod yn hunangyfiawn."



Mike Parsons

# Talu teyrnged i Ddoniau Cudd yn yr "Oscars" gofal cymdeithasol



Bryn Terfel

Mae cynllun i ddod a cherddoriaeth i bron  90 o bobl gydag anableddau dysgu yn y Gogledd, wedi ennill y wobr gyntaf o'i math gan Sefydliad Bryn Terfel.

Diolch i gyn brifathro a Chanolfan Gerdd William Mathias bydd pobl ifanc ac oedolion gydag anableddau dysgu wedi dod yn Ddoniau Cudd ac yn cael sesiwn gerddorol am ddim bob wythnos gyda cherddorion hyfforddedig.

Bu eu perfformiad diweddaraf yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy  mewn gŵyl o fri: Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru.

Derbyniodd Doniau Cudd wobr Sefydliad Bryn Terfel  am hyrwyddo'r celfyddydau a gofal cymdeithasol.

Cyflwynwyd y wobr, a hynny am y tro cyntaf, yng Ngwobrau Gofal Cymru, ac fe'i derbyniwyd gan y cerddor Arfon Wyn a Meinir Llwyd Roberts, cyfarwyddwr  Canolfan William Mathias.

Dywedodd Meinir: "Daeth Arfon atom ddeng mlynedd yn ôl gyda'i weledigaeth. Roedd wedi bod yn brifathro ysgol arbennig  a theimlai nad oedd disgyblion ysgolion o'r fath yn cael llawer o gyfle i ymwneud â cherddoriaeth unwaith yr oeddynt wedi gadael yr ysgol.

"Roeddem wrth ein boddau'n cael y wobr, yn enwedig gwobr ag enw Bryn Terfel  arni!

Ychwanegodd Arfon: "Roedd ennill y wobr yn syndod rhyfeddol ac yn werth dod yr holl ffordd i Gaerdydd i'w nôl."

Meddai Meinir: "Pan fo'r grŵp yn perfformio maen nhw'n sicr yn gadael argraff ar y rhai sy'n gwrando. Bu perfformiad ganddyn nhw yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ym mis Mehefin ac yn y Senedd yn 2011."




Arfon Wyn a Meinir Llwyd Roberts

# Helpwch i ni gael hyd i arwyr sydd heb gael y clod dyledus

Mae'r gwaith wedi cychwyn o chwilio ledled Cymru am arwyr ac arwresau sydd heb gael clod dyledus.

Gofynnir am enwebiadau ar gyfer Gwobrau Gofal Cymru 2014 fydd yn anrhydeddu sgiliau ac ymroddiad pobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol sy'n gofalu am blant ac oedolion bregus.

Cychwynnwyd gwobrwyo 12 mlynedd yn ôl gan Fforwm Gofal Cymru, fel modd o ysbrydoli rhagoriaeth yn y sector gofal.

Eleni bydd y digwyddiad disglair hwn yn cael ei gynnal yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ar ddydd Gwener, Hydref 24.

Y diwrnod diwethaf ar gyfer enwebu ydyw Mawrth 31.

Gall unrhyw un sy'n ymwneud â'r diwydiant gofal enwebu unigolyn neu dîm i gael gwobr. Felly os ydych am enwebu nyrs arbennig iawn, neu'n meddwl bod eich tîm arlwyo yn arwyr sydd heb gael y clod haeddiannol neu fod gennych reolwr nad yw ei waith caled heb gael ei gydnabod, yna dyma eich cyfle i chi gael eich dweud amdanynt.

Noddir y seremoni wobrwyo gan Fanc Barclays. Mae'n agored i bawb sy'n dymuno bod yn bresennol.

Bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno mewn tri chategori - aur, arian ac efydd – ac maent yn bwysig i godi proffil gweithwyr gofal ac addysgu'r cyhoedd am y gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud.

Mae bod yno ar noson y seremoni hefyd yn rhoi cyfle i ddod i adnabod eraill yn y maes gofal a thrafod arferion da a chael hwyl yr un pryd. Felly beth amdani – dewch yno i fwynhau.

Meddai Mario Kreft MBE, Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru: "Rydym ar hyn o bryd yn derbyn enwebiadau ar gyfer gwobrwyon 2014. Rydym yn edrych ymlaen at achlysur arbennig arall fydd yn bwrw goleuni haeddiannol ar y dynion a'r merched sydd wedi rhoi o'i gorau ym myd gofal cymdeithasol."

Am wybodaeth bellach, a ffurflenni enwebu, ewch i www.careforumwales.co.uk neu ffoniwch 01978 752500 neu e-bostiwch enquiries@careforumwales.co.uk

# Ennill yr aur



*Maer a Maeres Wrecsam, y Cyng. a Mrs David Bithel yn cyflwyno gwobr i Steve Elliott, chwith, a Chris Edwards*

Mae darparwr gofal cymdeithasol arloesol wedi dod y cyntaf yng Nghymru i gyrraedd Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl am ei waith gyda phlant a phobl ifanc.

Mae 'Prospects for Young People' sy'n gweithredu o Wrecsam, wedi torri tir newydd wrth gael ei sefydlu i gefnogi plant a phobl ifanc o gefndiroedd anodd.

Mae Prospects, sy'n cael ei redeg gan Steve Elliott a Chris Edwards, yn cynnal 11 cartref, yn rhedeg ysgol arbennig, yn darparu rhwydwaith o rieni maeth, yn cyflogi 150 o staff ac wedi gweithio gyda channoedd o bobl ifanc ar hyd a lled Prydain.

Llongyfarchwyd y ddau gan Faer Wrecsam, y Cynghorydd David Bithell, am y modd y maent yn gofalu am blant a phobl ifanc mewn cartrefi bychan o'r un maint a chartrefi arferol ac am y modd y maent yn hyfforddi, datblygu a thrafod eu staff.

Dywedodd Steve, sy'n aelod o Gyngor Fforwm Gofal Cymru, ac yn Gadeirydd Rhwydwaith Plant sy'n Derbyn Gofal:

"I gael y cymhwyster sylfaenol rhaid i chi fodloni 39 o ddangosyddion ond i gael y cymhwyster aur rhaid bodloni 165 dangosydd. Mi wnaethom ni fodloni 189. Roeddem wrth ein boddau gyda hynny. Rydym yn credu'n gryf y dylid buddsoddi mewn datblygiad staff i gael y llwyddiant gorau wrth ddarparu ar gyfer y bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw."

Ychwanegodd Chris: "Rydym yn falch iawn ein bod wedi medru gwneud hyn, a hynny yn enwedig am fod eleni yn nodi ugain mlynedd ers i ni gychwyn. Rydym yn gwneud ein gorau bob tro i ddarparu'r gwasanaeth gorau un i'r plant a phobl ifanc a'u teuluoedd sydd yn ein gofal.

# Rhoddion hael i dair hosbis diolch i arwyr gofal



O'r chwith, Rachel Kemp, Rheolwr Nyrsio, Rheolwr Codi Arian Tŷ Hafan, Lynne Carter. Mae'r ddwy hosbis yn cael eu rhedeg gan Ofalwr a Rheolwr Nyrsio, Alex Kelleher.

Cafodd tair elusen hosbis plant hwb sylweddol gan rai o'r rhai mwyaf eu gofal yng Nghymru.

Cafodd Hosbis Tŷ Hafan Caerdydd, Tŷ Gobaith yn Nyffryn Conwy a Hope House ger Croesoswallt £1,000 yr un.

Codwyd yr arian mewn raffl ac arwerthiant yn ystod noson Wobrwyo Gofal Cymru, sy'n dathlu sgiliau ac ymroddiad arwyr gofal cymdeithasol.

Cyflwynwyd yr arian i Dŷ Gobaith a Hope House gan Clive Nadin, perchennog cartref gofal Abbey Dale ym Mae Colwyn a chynrychiolydd Fforwm Gofal Cymru yng Nghonwy, a Kim Ombler, cydberchennog cartref nyrsio Quality Care ym Mrynsiencyn, Môn a Chadeirydd Gogledd Cymru Fforwm Gofal Cymru.

Meddai Clive: "Mae hosbis i blant yn sicr yn rhoi popeth arall mewn cyd-destun - dydyn ni ddim yn sylweddoli pa mor lwcus ydym ni.

Ychwanegodd Kim: "Mae'n achos teilwng iawn. Maen nhw'n dibynnu ar roddion gan y cyhoedd felly mae elw'r raffl wedi cael cartref da iawn.

"Bydd llawer yn synnu o wybod fod hosbis yn lle hapus iawn ac yn lle arbennig o ran awyrgylch llawn gofal gyda staff gwych.

"Mae'n adnodd â galw mawr amdano. Mae'n bwysig iawn i'r cleifion fod y gefnogaeth a'r adnoddau iawn ar gael iddyn nhw pe bai eu plant yn mynd yn wael."

Roedd Sarah Kearsley-Wooller, y rheolwr codi arian wrth ei bodd bod Fforwm Gofal Cymru wedi dewis cefnogi gwaith Tŷ Gobaith a Hope House.

Dywedodd: "Bydd y rhoddion hael hyn yn gwneud cryn wahaniaeth i'n gwaith ar ran plant a theuluoedd fydd yn elwa - diolch o galon.

Cyflwynwyd yr arian i Dŷ Hafan gan Alex Kelleher, nyrs arweiniol newydd Fforwm Gofal Cymru a'i rhagflaenydd, Rachel Kemp.

Dywedodd Alex: " Rwyf wrth fy modd yn cael dod yma gyda Rachel i gyflwyno'r arian a godwyd yn ein noson wobrwyo fis Hydref.

"Rwyf mor falch ein bod ni'n barod wedi penderfynu y bydd arian a godir yn yr un achlysur eleni hefyd yn cael ei gyfrannu i'r un achos."

Ychwanegodd Rachel : "Gan fy mod yn byw ac yn gweithio yn y De rwy'n hollol ymwybodol o'r gwaith gwych y mae Tŷ Hafan yn ei wneud gyda phlant y mae salwch yn cyfyngu ar hyd eu hoes. Rwy'n falch i ni godi'r swm wych hon a'i fod yn mynd i gynnal achos mor haeddiannol."

Meddai Lowri ap Robert o Dŷ Hafan: "Rydym yn wirioneddol ddiolchgar i Fforwm Gofal Cymru a Gwobrau Gofal Cymru am eu hymdrechion wrth godi arian hanfodol i Dŷ Hafan.

"Mae'n costio mwy na £3.5m y flwyddyn i redeg ein gwasanaethau ac rydym yn dibynnu'n arw ar gefnogaeth y cyhoedd i ddal ati i gynnig cysur, gofal a chefnogaeth i blant y mae salwch yn cyfyngu ar hyd eu hoes a theuluoedd y plant yma ar hyd a lled Cymru."

Ar hyn o bryd mae'r hosbis yn gofalu am dros 250 o blant y mae salwch yn cyfyngu ar hyd eu hoes ac mae wedi cefnogi bron i 600 o deuluoedd ers iddi agor yn 1999.

Dywedodd Mario Kreft MBE, Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru: "Mi wnaethom godi swm sylweddol o arian ac mi hoffwn ddiolch i bawb gyfrannodd yn ogystal â'r rhai roddodd wobrau'r raffl ac eitemau i'w gwerthu yn yr arwerthiant."

"Mae hosbis i blant yn sicr yn rhoi popeth arall mewn cyd-destun - dydyn ni ddim yn sylweddoli pa mor lwcus ydyn ni."



Ann Williams Pennaeth Gofal Tŷ Gobaith gyda Clive Nadin a Kim Ombler, ar y dde, o Fforwm Gofal Cymru .

# Cyfrifoldeb newydd Malcolm ac Alex



"Mae'r deddfau yma'n mynd i gael effaith o bwys ar ofal cymdeithasol a'r gwaith a wnawn o ddydd i ddydd, felly mae'n bwysig eu bod yn cael eu gwneud yn hollol iawn."

**Malcolm Perrett**
Is-gadeirydd Fforwm Gofal Cymru

Yr her gyda'r mwyaf sy'n wynebu Fforwm Gofal Cymru ar hyn o bryd ydyw cael dylanwad cadarnhaol ar gynnwys y Bil Gofal Cymdeithasol a Lles.

Dyna mae Malcolm Perrett yn ei feddwl. Mae bellach yn is-gadeirydd newydd y Fforwm ar ôl bod yn aelod o'r cyngor am dros dair blynedd.

Mae Malcolm, sydd a thros saith mlynedd o brofiad gofal yn y cartref yng Nghaerdydd a Chasnewydd yn rhedeg cwmni sydd yn arbenigo ar wasanaethu gofynion hyfforddi'r sector. Mae'n credu hefyd fod sawl her o weithio ym maes gofal ar adegau economaidd cyfyng.

Meddai: "Dylem ni, fel arbenigwyr yn y maes gofal ddylanwadau ar Lywodraeth Cymru ynglŷn â Bil Gofal Cymdeithasol a Lles, a hefyd sicrhau ein bod yn trafod y Bil Rheoliadau Cofrestru gyda'r gwleidyddion.

"Mae'n ganolog i'r sector gofal ein bod yn rhoi ar wybod i'r rhai sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a darparwyr annibynnol iechyd a gofal cymdeithasol, pa lwybrau strategol yr ydym wedi eu dewis.

Mae Alex Kelleher hefyd yn ymuno â bwrdd Fforwm Gofal Cymru, mae newydd gymryd drosodd hen swydd Rachel Kemp fel Nyrs Arweiniol y Fforwm.

Hyfforddwyd Alex, yn Ysbyty St Bart's Llundain. Mae wedi bod yn nyrs ers 39 mlynedd ac wedi gweithio yn sector cartrefi gofal dros y 19 ddiwethaf fel nyrs a rheolwr cartrefi gofal Torfaen.

Ers saith mlynedd mae Alex, sy'n byw yn Abersychan ger Pontypridd, wedi bod yn gyfarwyddwr nyrsio i Grŵp Summerhill. Mae gan y Grŵp naw cartref gofal ac asiantaeth gofal cartref yn ardal Torfaen.

Dywed Alex fod ei rôl hi fel Nyrs Arweiniol i fod i gefnogi rheolwyr cartrefi gofal a sicrhau bod safonau a chynllunio strategol Fforwm Gofal Cymru yn cael eu cynnal.

Meddai: "Mae yna bwysau yn dod o drafod materion ariannol ac effaith hynny ar allu darparu gofal da. Yn anffodus ar draul hyn rydym wedi colli rhai gweithwyr da o'r sector.

"Wrth gofio am hynny, rwyf yn gweld rhan bwysig o'm swyddogaeth i fy mod yn gallu cynnig cefnogaeth i'r cartrefi gofal a nyrsio bychan, fel nad yw'r rheolwyr a'r nyrsys yn y llefydd yma'n teimlo eu bod ar eu pennau eu hunain."



"Rwy'n sylwi bod rheolwyr yn cael eu dadrithio lawer mwy drwy ymyrraeth yr Arolygaeth (AGGCC)".

**Alex Kelleher**
Nyrs Arweiniol
Fforwm Gofal Cymru

# Manteision i aelodau



Mary Wimbury

Mae gennym nifer o fanteision gwych i aelodau.

Gall Fforwm Gofal Cymru Ychwanegol helpu aelodau i ennill eu tâl aelodaeth yn ôl sawl gwaith drosodd, drwy gael pris gostyngol am lawer o nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r cynigion wedi eu rhoi gyda'i gilydd i ni gan gwmni arbenigol, Parliament Hill.

Dywedodd Mary Wimbury Uwch Gynghorydd Polisi: "Mae yna lawer iawn o fanteision i'w cael gan gynnwys cynigion siopau stryd fawr, ynni, yswiriant, a chael pris gostyngol gan ddefnyddio grym y prynu'r cwsmer i gael y manteision yma.

"Drwy weithio gyda Parliament Hill, byddwn ar ein hennill drwy gyfuno grym prynu sefydliadau eraill sy'n aelodau, rhai gyda chymaint â 40,000 o aelodau.

"Mae pawb eisiau cael y gwerth gorau posib a bydd Fforwm Gofal Cymru Ychwanegol yn help i ymestyn y budd o'r adnoddau sydd gennym.

"Mae pawb sy'n aelod o Fforwm Gofal Cymru yn gymwys ac mae'n hawdd ymuno â'r cynllun.

"Cewch ymuno am ddim, felly does dim i'w golli a phopeth i'w ennill.

"Mae pobli sydd ar gynlluniau tebyg yn llythrenol yn arbed miloedd o bunnoedd y flwyddyn. Dylai aelodau fedru ennill eu tâl ymaelodi sawl gwaith drosodd heb newid eu harferion siopa.

"Dyma reswm arall ardderchog i ymuno â Fforwm Gofal Cymru."

# Ymgynghori â'r rhai sy'n cyfrif go iawn – y preswylwyr

"Pwy ohonom fyddai'n dymuno gweld eu cartref yn cael ei gam-ddarlunio ar y rhyngrwyd heb fod cyfle o gwbl i ymateb."

"Yn union fel Trip Advisor dylai fod modd apelio yn erbyn adroddiad"

Dylid ceisio barn preswylwyr cartrefi gofal a hynny cyn i adroddiadau archwiliad gael eu rhai ar goedd.

Mae Fforwm Gofal Cymru yn gofyn am newid sylfaenol yn y modd mae archwiliadau yn cael eu llunio a'u cyhoeddi ar y rhyngrwyd.

Mae'r cadeirydd Mario Kreft MBE yn credu y dylid ymgynghori â'r preswylwyr o ran parch, ynglŷn â chynnwys adroddiadau archwiliadau am y man sy'n gartref iddynt.

Roedd Mario yn ymateb i bapur ar o'r enw 'Llais, Dewis a Rheolaeth', a luniwyd gan Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn.

Meddai: "Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno papur pwysig iawn i roi llais i rai o fewn sefyllfa gofal a mynediad at wasanaeth eirioli. Yr ydym yn gefnogol iawn i hyn.

"Ond r ydym yn credu bod yna ddarn o'r jig-so ar goll ac mai'r darn hwnnw yw llais y bobl sy'n byw yn y cartrefi gofal.

"Mae'r man lle maen nhw'n byw o reidrwydd yn gartref iddyn nhw a'i dewis nhw yw bod yn y cartref hwnnw.

"Rydym ni'n credu ei bod yn iawn, yn deg ac yn briodol y dylai fod yna fodd cyfreithiol lle y caiff preswylwyr a'u teuluoedd, (yn arbennig felly'r preswylwyr sy'n alluog i wneud hynny) eu gwahodd i ymgynghori cyn i adroddiad archwiliad gan Arolygaeth Safonau Gofal Cymru gael ei wneud yn gyhoeddus ar y rhyngrwyd.

"Mae'r sefyllfa bresennol ymhell o fod yn ddelfrydol. Ac rydym o'r farn ei bod yn dra annerbyniol mewn nifer o achosion, pan fo adroddiad arolygydd yn darlunio cartref rhywun a'r person hwnnw heb gael unrhyw gyfle i gyfrannu at yr adroddiad.

"Mae hefyd yn wir ein bod fel sefydliad yn teimlo y dylai'r darparwr hefyd gael yr hawl i ymateb.


"Nid yw'r sefyllfa bresennol yn caniatáu proses apelio effeithiol - mae hyn yn anghyfiawn ac annheg pan fo barn oddrychol yn cael ei chyhoeddi fel ffaith heb gyfle i gyflwyno dadl i'r gwrthwyneb.

"Yn union fel Trip Advisor dylai fod modd apelio yn erbyn adroddiad. Ar hyn o bryd does dim dull apelio ystyrlon i ddarparwyr fedru cyflwyno eu hochr nhw ar y rhyngrwyd."

"Mae rhai aelodau'n dweud wrthym nad yw rhai preswylwyr yn medru adnabod eu cartref o rai o'r disgrifiadau sydd yn rhai o'r adroddiadau hyn.

"Pwy ohonom fyddai'n dymuno gweld eu cartref yn cael ei gam-ddarlunio ar y rhyngrwyd heb fod cyfle o gwbl i ymateb.

"Rwy'n credu y byddai'r rhan fwyaf o bobl resymol a theg yng Nghymru'n cytuno fod hyn yn deg. Mae'r hawl i ateb yn hanfodol mewn unrhyw drefn gyfiawn – neu mi ddylai fod."



**Mario Kreft MBE**
Cadeirydd, Fforwm Gofal Cymru